S4C /

# Pennaeth Gwasanaethau Technegol

**Pam ymuno â S4C?**

Yn S4C, rydyn ni'n angerddol am greu amgylchedd gwaith positif, egnïol a chynhwysol sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd:

Ar Dy Orau, Balch o S4C, Dathlu pawb, Cer Amdani.

Fel ein Pennaeth Gwasanaethau Technegol, byddwch yn arwain ar ein gwasanaethau darlledu a TG ac yn gwneud cyfraniad allweddol at ddatblygu a chyflawni ein strategaeth dechnoleg ar gyfer gwasanaethau darlledu a chorfforaethol er mwyn cefnogi ein cenhadaeth a'n twf yn y dyfodol. Byddwch yn gweithio gyda'n timau technegol a'n partneriaid i ysgogi arloesedd a thrawsnewid a sicrhau seilwaith technoleg cadarn a diogel, a sicrhau bod atebion technegol yn cyd-fynd â nodau busnes. Bydd hyn yn cynnwys rheoli partneriaethau darlledu a thechnoleg allweddol a'n helpu i ddefnyddio technoleg i wasanaethu'r sefydliad a'n cynulleidfaoedd mewn ffyrdd newydd a diddorol.

**Ymrwymiad i'r Gymraeg**

Nid yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon, ond byddent yn fanteisiol. Rydym yn falch o fod yn ddarlledwr Cymraeg ac rydym yn disgwyl i holl aelodau'r tîm werthfawrogi a pharchu'r iaith a'r diwylliant.

**Cyfrifoldebau Allweddol:**

- Gwneud cyfraniad allweddol at ddatblygu a chyflwyno strategaeth dechnoleg gyffredinol y sefydliad, gan sicrhau ei bod yn cyd-fynd â chenhadaeth, gwerthoedd a nodau twf S4C.

- Goruchwylio agweddau technegol gweithrediadau darlledu a ffrydio, gan gynnwys darlledu, seilwaith, a rhwydweithiau cyfrannu a dosbarthu, a darparu goruchwyliaeth weithredol o ddydd i ddydd o gyflenwad ffrydio byw.

- Rheoli ymateb i ddigwyddiadau ar draws pob problem darlledu, technegol a TG. Arwain ar gynlluniau Adfer yn dilyn Trychineb technegol a darlledu, yn ogystal â chyfrannu at y polisi Adfer yn dilyn Trychineb ehangach ar draws y busnes ehangach.

- Rheoli perthnasoedd allweddol gyda'n partner gwasanaethau darlledu a'n darparwyr rhwydwaith a thechnoleg, er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau darlledu o ansawdd uchel. Arwain ar brosesau caffael a thrafodaethau cytundebol ar gyfer gwasanaethau o'r fath yn ôl yr angen.

- Goruchwylio strategaeth TG a seiberddiogelwch S4C, a rheoli gofynion TG S4C mewn cydweithrediad agos â'r BBC a darparwyr TG eraill.

- Mewn partneriaeth â'r BBC a gweithio gyda Thîm Datblygu Cynnyrch S4C (sy'n gyfrifol am saernïaeth platfform digidol S4C), cynnal cydweddu o ran saernïaeth a seilwaith technoleg ar draws meysydd darlledu a chorfforaethol.

- Cefnogi gweithredu a chynnal a chadw technoleg darlledu a chorfforaethol, rheoli meddalwedd a systemau, gan gynnwys offer AI, o ddydd i ddydd, a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r diwydiant a thynnu sylw at gyfleoedd i wella llifoedd gwaith a mabwysiadu technolegau newydd.

- Cynrychioli S4C ar fforymau diwydiant yn ymwneud â materion darlledu a thechnoleg.

- Cyfleu cysyniadau technegol cymhleth yn glir ac yn hygyrch i randdeiliaid nad ydynt yn dechnegol, gan gynnwys sicrhau bod gan S4C bolisïau a gweithdrefnau clir ar faterion technegol.

- Bod yn rhan o dîm y prosiect ar gyfer newid system rheoli darlledu S4C a chyfrannu at y prosiect o safbwynt technoleg.

- Adeiladu perthnasoedd cryf gyda thimau mewnol a phartneriaid allanol gan gynnwys cwmnïau cynhyrchu a chyflenwyr a rheoli perthnasoedd cytundebol gyda chyflenwyr gwasanaethau technoleg allanol.

- Gweithio'n agos gyda Phrif Swyddog Cyllid a Phrif Swyddog Gweithredu S4C i reoli cyllidebau, risg, caffael a chynllunio cylch oes ar gyfer systemau technegol darlledu a chorfforaethol a phrosiectau buddsoddi cyfalaf.

- Sicrhau bod ein systemau technoleg yn sicrhau bod S4C yn cydymffurfio â'r holl reoliadau darlledu, digidol a data perthnasol (e.e. Ofcom, GDPR) gan weithio gyda'r adran Datblygu Cynnyrch lle mae angen cydymffurfio â phlatfformau digidol.

- Gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws y busnes i ddeall anghenion a darparu atebion technegol effeithiol.

- Gweithredu fel y prif bwynt cydgysylltu ar gyfer cyflenwyr newydd a chynefino â phlatfformau, gan weithio gyda'r Tîm Datblygu Cynnyrch ar gyfer dylunio technegol a darparu gwasanaethau digidol.

**Sgiliau a Phrofiad:**

- Profiad profedig mewn rôl arwain technoleg, yn ddelfrydol mewn amgylcheddau darlledu/cyfryngau/digidol.
- Gwybodaeth gref am dechnolegau darlledu traddodiadol a phlatfformau digidol.
- Hanes o gyflwyno rhaglenni technoleg a thrawsnewid.
- Dealltwriaeth ddofn o seiberddiogelwch, preifatrwydd data, a seilwaith TG.
- Sgiliau rhagorol o ran arwain ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Meddyliwr strategol sydd â dull ymarferol, cydweithredol.
- Y gallu i addasu i flaenoriaethau sy'n newid ac amgylcheddau cyflym.

**Byddwch hefyd yn:**

- Ymwybodol o strategaeth newydd S4C – Mwy na Sianel Deledu, a sicrhau eich bod yn cymryd cyfrifoldeb personol i ddilyn ein holl bolisïau a gweithdrefnau yn ôl y gofyn sy'n cynnwys gweithio o fewn canllawiau Iechyd a diogelwch, amrywiaeth a chynhwysiant, gwarchod data, canllawiau ariannol ac yn y blaen.
- Cyfrannu mewn ffordd bositif tuag at ddiwylliant a chyflawni strategaeth S4C.
- Cyfrannu at a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Cydweithio gyda'ch rheolwr llinell a bod yn rhagweithiol wrth reoli a datblygu eich perfformiad eich hun.
- Sicrhau eich bod yn gweithio mewn ffordd gadarnhaol, gydweithredol, draws-sefydliadol, sy'n datblygu gwasanaethau gwych i'n gwylwyr ar bob platfform ac yn sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol, egnïol a chynhwysfawr sy'n trin pawb gyda pharch.

**Beth fyddwch chi'n ei gael?**

- Y cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn sefydliad sy'n gwerthfawrogi pobl.
- Gweithio mewn amgylchedd hyblyg o fewn un o'n swyddfeydd yng Nghymru – Caerfyrddin, Caernarfon neu Gaerdydd.
- Mae S4C yn ymrwymo i dwf personol ei gweithwyr, gan gynnig cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad cynhwysfawr i wella sgiliau a hyrwyddo gyrfaoedd. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant mewnol, a rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus lle'n briodol.
- Mynediad at gyfleoedd unigryw yn y sector creadigol a chyfryngau gan gynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau a rhagolwg rhaglenni, trafodaethau panel a diweddariadau mewnol.
- Mae gan weithwyr y cyfle unigryw i gyfrannu at hybu a chadw iaith a diwylliant Cymru drwy eu gwaith.
- Cynllun Pensiwn Personol Grŵp gyda 10% yn cael ei gyfrannu gan S4C.
- 26 diwrnod o wyliau yn cynyddu yn raddol hyd at 32 diwrnod ymhen 9 mlynedd.

Am sgwrs anffurfiol am y rôl cysylltwch a pobl@s4c.cymru

**Manyleb y Person**

| **Nodwedd** | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|
| **Cymwysterau** | Gradd neu brofiad cyfatebol | Sgiliau Cymraeg<br><br>Cymhwyster Rheoli Prosiect e.e. Prince<br><br>Ardystiad Agile neu Scrum<br><br>Ardystiad AWS neu Google Cloud |
| **Profiad** | Arweinyddiaeth gref ac arbenigedd technegol i reoli ac arloesi seilwaith technoleg ein cwmni.<br><br>Y profiad o oruchwylio cynllunio, datblygu, gweithredu a chymorth ym maes technoleg, gan sicrhau defnydd effeithlon ac effeithiol o dechnoleg yn unol â nodau busnes S4C.<br><br>Profiad o ddatblygu a chynnal a chadw seilwaith TG, gan gynnwys seiberddiogelwch, mentrau trawsnewid digidol a rheoli perthnasoedd gyda gwerthwyr allanol.<br><br>Sgiliau Rheoli Prosiectau cryf. Profiad o redeg prosiect mawr gyda nifer o randdeiliaid.<br><br>Profiad o reoli newid busnes. | Profiad o negodiadau masnachol gyda darparwyr trydydd parti. |

S4C /

| | | |
|---|---|---|
| | Gwybodaeth fanwl am ddiogelwch gwybodaeth a mesurau ataliol. Profiad o ddarparu, caffael neu drefnu hyfforddiant a diweddariadau seiberddiogelwch neu ddiogelwch gwybodaeth.<br><br>Profiad o reoli perthnasoedd gyda darparwyr trydydd parti.<br><br>Profiad o ddefnyddio data a dadansoddeg i fonitro a gwerthuso cytundebau gwasanaeth.<br><br>Profiad profedig o gynefino â gwahanol blatfformau technoleg. | |
| **Sgiliau a Gwybodaeth** | | Yn gyfarwydd ag ISO 27001, canllawiau NCSC (Canolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol y DU) neu gyfwerth. |
| **Nodweddion Personol** | Sgiliau rhagorol o ran arwain ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.<br><br>Rhywun sy'n gallu datrys problemau gyda dull ymarferol, cydweithredol. | |

## Manylion Pellach

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | Eich lleoliad gwaith arferol fydd S4C, Sgwâr Canolog, Caerdydd. Mae swyddfeydd S4C yng Nghaerfyrddin, Caerdydd a Chaernarfon ac rydym yn gweithredu polisi gweithio hybrid. Gofynnir i chi fynd i swyddfeydd S4C yng Nghaernarfon a Chaerfyrddin o bryd i'w gilydd. |
| **Cyflog:** | £90,000 y flwyddyn |
| **Cytundeb:** | Parhaol |
| **Cyfnod Prawf:** | 6 mis |
| **Oriau Gwaith:** | 35.75 awr yr wythnos. Oherwydd natur y swydd, disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio y tu allan i oriau swyddfa, rhai penwythnosau a gwyliau banc. |
| **Gwyliau:** | Yn ogystal â'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau â thâl y flwyddyn. (Sylwer y bydd y gwyliau blynyddol yn pro rata os ydych chi'n gweithio'n rhan-amser). |

S4C /

**Pensiwn:** Mae gan staff cyflogedig hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn amodol ar delerau unrhyw gynllun presennol sy'n cael ei ddiwygio o bryd i'w gilydd. Os ydych chi'n aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Bydd disgwyl i chi gyfrannu 5%.

**Ceisiadau**

Dylid anfon ceisiadau erbyn **9.00 ar Ddydd Mawrth 5 Mai 2026** i Pobl@s4c.cymru neu Pobl a Diwylliant, Canolfan S4C, Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ.

**Dyddiad Cyfweliadau: I'w gadarnhau**

**Nid ydym yn derbyn CV.**

Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

**Defnyddio AI**

Os ydych chi'n dewis defnyddio AI neu offer tebyg, gwnewch yn siŵr bod eich ymatebion yn fanwl gywir, yn onest ac yn adlewyrchu'ch profiad a'ch geiriau eich hun. Gall ceisiadau nad ydynt yn wreiddiol neu sydd wedi'u cynhyrchu gan AI gael eu gwrthod.

Yn ystod y cyfweliad, ni chaniateir defnyddio AI nac offer recordio, oni bai bod hynny wedi'i gytuno ymlaen llaw ar sail hygyrchedd. Gall unrhyw dystiolaeth o ddefnydd heb ganiatâd arwain at dynnu'ch cais yn ôl.

**Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth**

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd ar iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.